**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Diogelu Pobl a Threchu Tlodi

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 27 Mehefin 2022 am 3.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C R Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J P Curtice | R Fogarty | A J Jeffery |
| H Lawson | A J O'Connor | J E Pritchard |
| L V Walton | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Julie Davies | Head of Child & Family Services |
| Amy Hawkins | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |
| Anthony Richards | Rheolwr Datblygu Strategaeth Tlodi a'l Atal |
| Lisa Thomas | Uwch-gyfreithiwr |

**Hefyd yn bresennol**

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr):

---

## 4 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 5 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Diogelu Pobl a Threchu Tlodi a gynhaliwyd ar 24 Mai 2022 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

## 6 Cylch Gorchwyl. (Er Gwybodaeth)

Amlinellodd y Cadeirydd Gylch Gorchwyl ar gyfer y pwyllgor, 'er gwybodaeth'.

## 7 dolygiad Blynyddol o Raglen Waith y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl ar gyfer 2021-22. (Er Gwybodaeth)

Cyflwynodd Simon Jones, Swyddog Strategaeth a Gwella Perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol adroddiad "er gwybodaeth" i roi trosolwg i'r Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Diogelu Pobl a Threchu Tlodi newydd o'r cynnydd a wnaed hyd heddiw gan y Pwyllgor Datblygu Pobl, mewn perthynas â'r rhaglen waith ar gyfer 2021-2022, unrhyw waith sydd heb ei wneud o hyd ac i nodi argymhellion i Aelodau perthnasol y Cabinet ar gyfer gwaith datblygu yn y dyfodol yn y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol newydd.

## 8 Adolygiad Blynyddol o Raglen Waith y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi ar gyfer 2021-22. (Er Gwybodaeth)

Cyflwynodd Joanne Portwood, Swyddog Strategaeth a Pholisi adroddiad "er gwybodaeth" i roi trosolwg i'r Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Diogelu Pobl a Threchu Tlodi newydd o'r cynnydd a wnaed hyd heddiw gan y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi, mewn perthynas â'r rhaglen waith ar gyfer 2021-2022, unrhyw waith sydd heb ei wneud o hyd ac i nodi argymhellion i Aelodau perthnasol y Cabinet ar gyfer gwaith datblygu yn y dyfodol yn y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol newydd.

## 9 Trafordaeth Cynllun Gwaith

Esboniodd y Cadeirydd y disgwylir i'r strwythur newydd i gefnogi'r Pwyllgorau Cyflawni Corfforaethol a fyddai'n cysylltu â'r Blaenoriaethau Corfforaethol gael ei ystyried gan y cyngor ar 7 Gorffennaf 2022. Unwaith y cytunwyd arnynt, gallai'r Pwyllgor gytuno ar ei gynllun gwaith.

Yn dilyn trafodaethau gyda'r Cadeirydd, awgrymodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol y dylai'r Pwyllgor ddewis 3 phwnc - un yr un o'r Gwasanaethau i Oedolion, y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Threchu Tlodi.

Dywedodd y Pwyllgor yr hoffent hefyd gael yr wybodaeth ddiweddaraf am waith y PDP Pobl a'r PDP Trechu Tlodi blaenorol sydd heb ei gyflawni.

## 10 Dyddiad ac Amser y Cyfarfodydd Dyddiad Trafodaeth.

Trafododd y Pwyllgor ddyddiad ac amser cyfarfodydd y dyfodol:

**Penderfynwyd y** bydd yr holl gyfarfodydd yn y dyfodol yn dechrau am 4pm (yn hytrach na 3.30pm).

Daeth y cyfarfod I ben am 4.01 pm

**Cadeirydd**